Dymunwn y gorau i Andrew Allsopp sydd ar fin mynd dan driniaeth lawfeddygol yn yr Ysbyty Frenhinol yng Nghaerdydd. Hyderwn y cawn eich gweld yn ôl yma'n fuan, Andrew.

Cafwyd Gyrfa Chwilen lwyddiannus iawn yn neuadd yr ysgol. Trefnwyd y noson gan y Gymdeithas Rhieni Athrawon. Yr oedd yno standin gacennau hefyd. Cafwyd llawer iawn o hwyl. Cadwyd trefn gan Mr I. E. Jones. Deallwn bod elw sylweddol wedi ei wneud. Diolchwn i bawb am bob cefnogaeth.

Bu nifer o'r plant yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd a braf oedd gweld yr ysgol yn torri tir newydd ac yn mentro i fyd y dawnsio creadigol. Cafodd y merched hwyl arbennig ac yn yr eisteddfod sir yn Llanbedr Pont Steffan cawsant ganmoliaeth uchel am eu perfformiad.

Bu'r tim pêl-rwyd yn cymryd rhan yn y cystadlaethau'n Aberystwyth a bu'r tim rygbi a'r bel droed hefyd yn cymryd rhan mewn gwahanol gystadlaethau.

Hyfryd yw clwyed am lwyddiant nifer o'n disgyblion ym myd cerddoriaeth. Ymfalchiwn yn eich llwyddiant a dymunwn y gorau i chwi i'r dyfodol.

Cynhaliwyd parti yng nghartref Mr a Mrs Eric Thomas yn ddiweddar a chyflwynwyd yr elw i gronfa Urdd yr ysgol. Yn yr un modd cynhaliwyd Parti Coffi ar aelwyd Mr a Mrs R. W. Davies a buont hwythau mor garedig â chyflwyno'r elw i'r un gronfa. Diolchwn yn ddidwyll iawn i'r bobl garedig hyn ac i bawb a'u cefnogodd i godi arian er lles ein clwb yn yr ysgol.